# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016

Amser: 09.15 - 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3798

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Russell George AC (Cadeirydd)<br>Hannah Blythyn AC<br>Hefin David AC<br>Vikki Howells AC<br>Mark Isherwood AC<br>Jeremy Miles AC<br>Adam Price AC<br>David J Rowlands AC |
| Tystion: | Rhodri Griffiths, Llywodraeth Cymru<br>Simon Jones, Llywodraeth Cymru<br>Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith<br>Darren Mepham, Bargen Ddinesig: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

View the meeting transcript (PDF 1MB) View as HTML (232KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

2.1 Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.
2.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ddarparu (cyn gynted ag y bydd yn hysbys):

- Gwybodaeth gan Lywodraeth y DU yn egluro'r rhesymau am newid Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU o fod yn sefydliad anstatudol i fod yn sefydliad statudol.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith hefyd i ddarparu:

- Dadansoddiad a gwerthusiad o'r gwahanol fodelau sy'n cael eu hystyried ynglŷn â'r rôl y gallai'r Comisiwn ei chwarae o ran cyllido buddsoddi mewn seilwaith.

## 3 Awdurdodau Lleol - Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (I'w gadarnhau)

3.1 Atebodd Darren Mepham o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol - Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

4.1.1 Nodwyd y dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Pwyllgor.

### 4.2 Llythyr at y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynglŷn â'r diwydiant dur

4.2.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.3 Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gwasanaethau rheilffyrdd

4.3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr 2016.

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth seilwaith ryngwladol - Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth seilwaith ryngwladol.

## 7 Trafod y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg - Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

## 8 Papur cwmpasu - Ymchwiliad i ddarparu'r Metro a'r masnachfraint rheilffyrdd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu.